

Gwneud y peth iawn dros natur

Adroddiad statudol Dŵr Cymru ar
yr hyn a wnaed gennym i gyflawni
ein dyletswydd bioamrywiaeth
o dan Adran 6 o Ddeddf yr
Amgylchedd (Cymru) 2016



Rhagair

Mae ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnaiff Dŵr Cymru fel cwmni. Mae arolygon ac ymarferion ymgysylltu eraill wedi rhoi gwybod i ni fod ein cwsmeriaid am i ni ofalu am yr amgylchedd naturiol. Rydym yn falch o ymateb i'r agenda honno.

Yma yng Nghymru, mae dyletswydd bioamrywiaeth gryfach arnom na'r rhan fwyaf o'r sector dŵr o ganlyniad i adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rydym am i'r ddyletswydd honno sbarduno Dŵr Cymru i osod esiampl sy'n arwain y diwydiant o ran cyfrifoldeb amgylcheddol.

Roedd cyflwyno'r ddyletswydd bioamrywiaeth gryfach yn cyd-fynd â chydabyddiaeth gynyddol o fewn Dŵr Cymru fod yn rhaid i ni weithio gyda natur, nid yn ei herbyn, er mwyn bod yn fusnes mwy cydnerth. Er enghraifft, yn ogystal â gwneud ein cyflenwadau dŵr yn fwy cydnerth, mae'r camau rydym yn eu cymryd i ddiogelu ein ffynonellau dŵr crai rhag y bygythiadau sy'n deillio o blaleiddiaid yn esgor ar fanteision sylweddol i natur. Yn y busnes dŵr gwastraff, rydym yn fwyfwy parod i ystyried dulliau gweithredu amgen sy'n cynnig manteision amgylcheddol ehangach o gymharu ag atebion "arllwys concriid" confensiynol: mae hyn yn cefnogi agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Ein cam cyntaf wrth gyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth gryfach oedd llunio ein cynllun bioamrywiaeth statudol yn 2017, sef "Neilltuo amser ar gyfer natur: cynllun Dŵr Cymru ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth". Roeddem yn falch iawn o weld yr adborth cadarnhaol i'n cynllun, yn fewnol ac yn allanol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig y cyfle i ni bwysu a mesur a yw "Neilltuo amser ar gyfer natur" wedi cael yr effaith ar lawr gwlad yr oeddem wedi gobeithio amdani. Rwy'n falch o ddweud, er bod mwy o waith i'w wneud, ein bod wedi gwneud cynnydd gwerth chweil yn erbyn pob un o'r 30 o ymrwymadau a wnaethom yn y Cynllun hwnnw. Efallai mai'r newid mwyaf pellgyrhaeddol fu cynyddu'r ymwybyddiaeth o fewn Dŵr Cymru o'r angen i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth wrth i ni wneud ein "gwaith bob dydd" o fod yn ymgymwrwr carthffosiaeth.

Y cam statudol nesaf ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn fydd adolygu "Neilltuo amser ar gyfer natur". Rwy'n hyderus y gallwn adeiladu ar y cynnydd cryf rydym eisoes wedi'i wneud, fel y bydd cefnogi bioamrywiaeth yn dod yn rhan fwyfwy cyffredin o'n gweithgareddau.

Mae Dŵr Cymru yn fusnes hirdymor. Mae ein dyled yn fawr i genedlaethau'r gorffennol am eu rhagweledigaeth wrth ddarparu cynifer o'r asedau yr ydym yn dibynnu arnynt hyd heddiw, megis cronfeydd dŵr mawr o'r oesoedd Fictoriaidd ac Edwardaidd. Gobeithio y bydd ein hetifeddiaeth yn cynnwys ymdeimlad o falchder yn y ffordd rydym yn gwarchod natur, fel y bydd cwsmeriaid y dyfodol yn etifeddu amgylchedd naturiol ffyniannus a bioamrywiol gennym.



Chris Jones
Prif Swyddog Gweithredol

Pwy ydyn ni?

Dŵr Cymru yw'r ymgymwrwr dŵr a charthffosiaeth statudol sy'n cyflenwi mwy na thair miliwn o bobl yng Nghymru a rhai rhannau cyffiniol o Loegr.

Glas Cymru, cwmni cyfyngedig drwy warant, sy'n berchen arnom. Rydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i'n cwsmeriaid drwy gyflenwi eu dŵr yfed a chludo eu dŵr gwastraff ymaith a'i drin mewn modd cynaliadwy sy'n diogelu ein hamgylchedd a'r fioamrywiaeth y mae'n ei chefnogi. Yn y modd hwn rydym yn gwneud cyfraniad mawr i iechyd y cyhoedd ac i'r gwaith o ddiogelu amgylchedd Cymru. Mae ein gwasanaethau yn hanfodol hefyd o ran datblygu economaidd cynaliadwy yn yr ardaloedd rydym yn eu gwasanaethu.



Pam mae angen adroddiad bioamrywiaeth arnom?

Fel ymgymmerwr dŵr statudol yng Nghymru, mae arnom ddyletswydd bioamrywiaeth gryfach. Mae'n cynnwys gofyniad penodol i gyflwyno adroddiadau ar y ffordd rydym wedi cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Yn gyntaf oll, mae Dŵr Cymru yn gyflenwr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth cyhoeddus. Ein blaenoriaeth bennaf bob amser fydd cyflenwi gwasanaethau o safon uchel am bris y gall ein cwsmeriaid ei fforddio.

Fodd bynnag, rydym bob amser yn cadw mewn cof fod y gwasanaethau hyn yn ddibynnol iawn ar amgylchedd dyfrol o safon uchel yng Nghymru. Wrth reswm felly, mae o fudd i ni geisio sicrhau y cynhelir ein gweithgareddau mewn ffordd sy'n parchu'r amgylchedd, gan gynnwys y fflora a'r ffawna y mae'n eu cefnogi.

Felly, gwnaethom groesawu'r penderfyniad i gyflwyno adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a osododd ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau gryfach ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnwys, at y diben hwn, ymgymmerwyr dŵr statudol megis Dŵr Cymru. Yn benodol, mae'n rhaid i ni, "wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol".

Mae adran 6(6) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi cynllun blaengar sy'n nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd. Gwnaethom gyflawni'r rhwymedigaeth hon yn 2017 wrth gyhoeddi "Neilltuo amser ar gyfer natur: Cynllun Dŵr Cymru ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth".

Mae adran 6(7) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol, o 2019 ymlaen, i ni gyhoeddi adroddiadau bob tair blynedd ar yr hyn a wnaed gennym mewn gwirionedd i gyflawni ein ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Hwn yw adroddiad cyntaf Dŵr Cymru o dan adran 6(7) o Ddeddf 2016 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 a 2019.

Wrth lunio'r adroddiad hwn, rydym yn ymwybodol bod arnom nifer o ddyletswyddau eraill sy'n ymwneud â natur sy'n gymwys i'r ffordd rydym yn arfer ein swyddogaethau fel ymgymmerwr dŵr a charthffosiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried gwarchod bioamrywiaeth, ddyletswydd sy'n gymwys i'n gweithgareddau yn Lloegr. Mae gennym gyfrifoldebau penodol hefyd, er enghraifft o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, am ddiogelu a gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ar ein tir ac mewn mannau eraill. Mae amrywiaeth o gyfreithiau sy'n benodol i rywogaethau hefyd yn gymwys i ni, megis Deddf Gwarchod Moch Daear 1992, yn ogystal â'r gofyniad arnom i ystyried y rhywogaethau a restrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.



Sut rydym wedi adolygu ein perfformiad bioamrywiaeth?

Ein cam cyntaf oedd adolygu'r cynnydd a wnaed gennym yn erbyn pob un o'r 30 o ymrwymadau penodol a roddwyd gennym yn "Neilltuo amser ar gyfer natur: cynllun Dŵr Cymru ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth". Gallwn hefyd ddweud bod cynnydd gwerth chweil wedi cael ei wneud.

Mae ein Bwrdd wedi dangos diddordeb yn y ffordd rydym yn cyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth: cafodd ddiweddariad interim y llynedd ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni ein hymrwymadau ac mae wedi cymeradwyo'r adroddiad hwn cyn ei gyhoeddi. Rydym hefyd yn croesawu rôl ein Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol y mae ei aelodau yn parhau i'n herio ar y ffordd rydym yn cyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth.

Ceir adroddiad ar y cynnydd a wnaed gennym yn erbyn pob un o'r 30 o ymrwymadau a restrir yn "Neilltuo amser ar gyfer natur" yn yr Atodiad, ar dudalen 11. Serch hynny, gall fod yn ddefnyddiol trafod rhai themâu sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn gymwys i'r ffordd rydym yn arfer ein swyddogaethau. Fel ymgymrwyr dŵr a charthffosiaeth, daw ein prif gysylltiad â'r amgylchedd naturiol drwy dynnu dŵr a gollyngiadau.

Felly, mae angen i'n dyletswydd bioamrywiaeth gael ei hystyried yn y broses o gyflawni'r swyddogaethau hyn. Er enghraifft, prif ddiben ein Cynlluniau Rheoli

Adnoddau Dŵr statudol yw nodi'r ffyrdd gorau o sicrhau y gallwn ateb y galw gan gwsmeriaid am ein cyflenwadau dŵr dros y 25 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae ein Cynllun diweddaraf (a gyhoeddwyd yn 2019) hefyd yn cydnabod y ddyletswydd bioamrywiaeth gryfach sydd arnom erbyn hyn, gan gynnwys, er enghraifft, drwy ystyried ffyrdd o leihau ein heffaith ar gyrff dŵr niferus Cymru sydd wedi'u dynodi o ganlyniad i'w pwysigrwydd o ran cadwraeth natur.

Mae gwella ein dealltwriaeth o'n heffaith ar yr amgylchedd naturiol wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Er enghraifft, rydym yn cyflogi timau o ecolegwyr allanol y byddwn yn galw arnynt ar fyr rybudd i gynnal arolygon perthnasol ac awgrymu mesurau lliniaru os bydd yr angen yn codi. Yn ogystal â llywio prosiectau unigol, mae'r arolygon hyn yn ychwanegu at ein gwybodaeth am bresenoldeb rhywogaethau a restrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar ein safleoedd. Mae angen i ni ystyried y rhywogaethau hyn wrth i ni gyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth.

Gallwn hefyd wella ein gwybodaeth sylfaenol (ymrwymiad 29) drwy'r rhwydwaith o Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol yng Nghymru, felly gwnaethom negodi contract sy'n ein galluogi i gael gafael ar eu data ecolegol lleol er mwyn llywio cynlluniau ar gyfer cynlluniau cyfalaf, er enghraifft.

Mewn prosiect ar wahân, ac mewn cydweithrediad agos â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), rydym yn ymchwilio i gyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) rydym yn berchen arnynt er mwyn ein helpu i dargedu buddsoddiad yn y dyfodol (ymrwymiad 15). Rhwng 2020 a 2025, rydym yn gobeithio cymryd camau dilynol mewn cysylltiad â'r ymchwiliadau hyn gyda rhaglen fach o welliannau, er bod llawer yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad presennol o'n taliadau dŵr a arweinir gan Ofwat.



Gan weithio'n agos gyda'n rheoleiddwyr hefyd, gwnaethom gomisiynu ymchwiliadau i'r effaith y mae rhai o'n hasedau dŵr gwastraff yn ei chael ar gydymffurfio â gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Wrth wraidd y Gyfarwydddeb mae'r uchelgois i adfer Statws Ecolegol Da cyrff dŵr, gyda'r manteision ehangach i fioamrywiaeth y mae hynny'n eu haddo. Gwnaethom ymchwilio i'n heffaith ar 62 o gyrff dŵr ac, o ganlyniad uniongyrchol, rydym wedi cynnig adnewyddu nifer o'n hasedau rhwng 2020 a 2025.

Mae wedi bod yn galonogol gweld cymaint y mae cwsmeriaid yn cefnogi'r camau rydym yn eu cymryd i gefnogi natur.

Efallai mai'r dystiolaeth orau o hyn oedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym yn 2017 ar ein dogfen "Dŵr Cymru 2050", a nododd yr heriau a'r cyfleoedd posibl y bydd Dŵr Cymru yn eu hwynebu yn y tymor hwy. Mewn ymateb i adborth a gafwyd gan lawer o randdeiliaid, ymgorfforwyd "Cefnogi ecosystemau a bioamrywiaeth" fel un o ymatebion strategol ein cwmni yn y fersiwn derfynol o'n dogfen "Dŵr Cymru 2050". Yn ei dro, roedd hyn yn golygu bod bioamrywiaeth yn thema gyson yn ein Cynllun Busnes drafft ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2025.

Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu a chydweithio ag eraill, gan groesawu'r ffyrdd o weithio sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Er mwyn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, bydd yn rhaid i bawb chwarae eu rhan. Mae hynny'n cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector

preifat, yn ogystal â grwpiau gwirfoddol a dinasyddion unigol. Felly, mae gennym nifer o fentrau allgymorth neu gydweithredol sy'n hyrwyddo gwaith ymgysylltu ehangach.

Er enghraifft, mae ein rhaglen addysg yn meithrin gwerthfawrogiad y genhedlaeth nesaf o natur. Mae gennym bedair "Canolfan Ddarganfod" lle mae plant ysgol yn dysgu am y cylch dŵr. Eleni, gwnaethom gyrraedd y garreg filltir o ymgysylltu â hanner miliwn o blant ers i'r rhaglen gael ei lansio yn 2001. Gwnaethom ddatlu'r garreg filltir drwy gyhoeddi cynlluniau i ehangu'r rhaglen.

Mae ein rhwydwaith o ganolfannau ymwelwyr yn cynnig cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol, boed drwy weithgareddau wedi'u trefnu (megis teithiau cerdded a arweinir gan arbenigwyr ar y fflora a'r ffawna y mae'r safleoedd yn eu cefnogi) neu drwy fwynhad anffurfiol o gefn gwlad. Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau lleol i'w hannog i'n helpu i ofalu am rai o'n safleoedd drwy, er enghraifft, sefydlu "Grwpiau Cyfeillion".



Gwnaethom gomisiynu ymgynghorwyr arbenigol i asesu'r ffordd orau o wella statws presennol poblogaethau pysgod a llyswennod yn Afon Cefni, gan gynnwys i fyny'r afon o Lyn Cefni. Daeth yr arolwg i'r casgliad nad oedd llawer o gynefin addas ar gael i fyny'r afon o'r gronfa ddŵr. Mewn cytundeb â CNC, rydym yn cyllido'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar i wneud gwaith ar ei thir er mwyn gwella'r cynefinoedd llyswennod sydd ar gael mewn dalgylchoedd cyfagos. Rydym yn gobeithio y caiff hyn effaith gyffredinol well ar niferoedd poblogaethau. Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2020 a bydd yn cynnwys rhaglen cynnal a chadw flynyddol i sicrhau bod y manteision yn parhau i gael eu gwireddu yn y dyfodol.



I'n helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi natur, yn 2018 gwnaethom drefnu cyfres o weithdai amrywiaeth yn ein prif Ddigidwyddiad Arloesedd blyneddol er mwyn annog rhanddeiliaid i rannu eu syniadau â ni.

Rydym wedi darparu cyllid er mwyn galluogi sefydliadau dielw i gynnal eu prosiectau eu hunain i wella bioamrywiaeth lle ceir rhywfaint o gysylltiad â'n gweithgareddau. Mae'r prosiectau yn cynnwys y canlynol:

- prosiect gwella bioamrywiaeth gwlyptiroedd yn Llanelli;
- adfer pwll mawr yn Castle Meadows yn y Fenni gan grŵp cymunedol lleol;
- cynllun i annog perchnogion pysgodfeydd a grwpiau cymunedol i fabwysiadu llednant o Afon Tywi;
- gwella mynediad pysgod mudol i ddarnau o Afon Conwy ac Afon Clwyd;
- cadw Afon Cynon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- helpu i brynu cyfarpar er mwyn cynnal rhai SoDdGA ar benrhyn Gŵyr.

O dan Gronfa Gymunedol Dŵr Cymru, rydym hefyd wedi cefnogi nifer o brosiectau llai ond buddiol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys cyllido'r gwaith o blannu clychau'r gog brodorol mewn safleoedd amrywiol yng Nghaerdydd; cefnogi ymdrechion trŵp o sgowtiaid yn Hwlfordd i gynllunio gerddi dŵr glaw sy'n lleihau eu heffaith ar ddyfroedd wyneb ac yn denu peillwyr; a helpu grŵp bywyd gwyllt yn Swydd Henffordd i ailgysylltu plant lleol â natur.

Ers 2017, rydym wedi codi ymwybyddiaeth cydweithwyr o bwysigrwydd bioamrywiaeth a harneisio eu brwdfrydedd i helpu.

Er enghraifft, rydym wedi llunio hyfforddiant mewnol i roi'r gwybod i'r staff am ein rhwymedigaethau ynglŷn â natur (ymrwymiad 20). Yn dilyn awgrym gan gydweithwyr (ymrwymiad 25), rydym wedi llunio cyfres o ffeithlenni byr, sy'n rhoi syniadau am ffyrdd o wneud eu safleoedd yn fwy ystyriol o natur. Cyhoeddwyd taflenni hefyd sy'n helpu cydweithwyr i adnabod rhywogaethau estron goresgynol (ymrwymiad 23).



Crëwyd cyllideb fewnol fach er mwyn helpu cydweithwyr i brynu cyfarpar. Defnyddiwyd y gyllideb hon er mwyn prynu eitemau megis blychau draenogod, blodau gwyllt brodorol, camerâu, blychau adar ac ati. Roedd y gyllideb hefyd yn galluogi cydweithwyr i brynu offer i leihau'r risg y byddai bywyd gwyllt yn cael ei anafu neu'n marw ar safleoedd, heb effeithio ar weithgareddau gweithredol.



Mae sawl fîm wedi adeiladu cyfleusterau ar gyfer natur, megis gwestai bygiau, fel rhan o ymarferion adeiladu fîm, ac mae llawer o dimau eraill wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau codi sbwriel, yn aml mewn cydweithrediad â phartneriaid, megis Cadwch Gymru'n Daclus.



Ar eu pen eu hunain, gall manteision gweithgareddau o'r fath ymddangos yn gymharol ddibwys, ond ar y cyd gallant wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae llawer o gydweithwyr yn frwd iawn dros natur, felly gall y gweithgareddau hyn hefyd gyflwyno manteision cymhellol ac ennyn ymdeimlad o falchder yn ein safleoedd.

Un o'r llwyddiannau nodedig fu'r rhwydwaith o hyrwyddwyr bioamrywiaeth a sefydlwyd yn y busnes dŵr gwastraff (ymrwymiad 24). Gwirfoddolodd 12 o swyddogion i fod yn hyrwyddwyr bioamrywiaeth. Mae eu hymdrechion wedi cynnwys plannu bylbiau, hadau a choed brodorol, neilltuo tir a ddyrannwyd ar gyfer 'twf gwyllt' ar safleoedd gweithredol a chreu cynefinoedd er mwyn annog adar, pryfed a bywyd gwyllt arall i nythu a bridio. Mae rhai wedi gweithio gydag ysgolion lleol er mwyn annog pobl i blannu blodau ar safleoedd dŵr gwastraff, ac mae eraill wedi gweithio gyda chyrrff megis yr RSPB, Bug Life ac ymddiriedolaeth Coed Cadw. Drwy wneud hyn, maent hefyd wedi dod yn llysgenhadon natur i ni o fewn y busnes dŵr gwastraff a'r tu allan iddo. Diolch i frwdfrydedd ac ymrwymiad yr hyrwyddwyr, cyflawnwyd cryn dipyn mewn amser byr ac efallai y bydd rhai o'n hasedau dŵr gwastraff yn dechrau gwneud cyfraniad go iawn i fioamrywiaeth yn fuan.

Mae cyfres o fentrau wedi annog cydweithwyr i geisio lleihau faint o eitemau plastig sy'n cyrraedd yr amgylchedd, gan leihau'r effaith ar ffawna dyfrol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys rhoi cwpanau y gellir eu hailddefnyddio i bob aelod o'r staff; cefnogi Adduned Moroedd Glân y Cenhedloedd Unedig; ac annog pobl i ail-lenwi poteli dŵr. Rydym hefyd yn mabwysiadu rôl arweiniol mewn ymchwil i wella dealltwriaeth y sector o blastigion yn ein prosesau yn UKWIR.

Weithiau, mae pethau wedi mynd o chwith.

Er enghraifft, er bod ein perfformiad amgylcheddol cyffredinol a aseswyd gan CNC wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd Dŵr Cymru yn gyfrifol am ddau achos o lygredd yn ystod 2018/19 (un ger Abertawe a'r llall ger Wrecsam) a arweiniodd at ladd pysgod, gwaetha'r modd. Yn y ddau achos, gwnaed gwaith adferol brys ar y safle, ac rydym wedi gweithio gyda CNC i sicrhau ein bod yn cymryd camau i atal damweiniau o'r fath yn y dyfodol. Rydym wedi ymddiheuro am fethu ag atal y ddau ddigwyddiad hyn ac am eu heffaith ar yr ecoleg leol.

Yn ogystal, cafwyd achlysuron pan roddwyd ymrwymadau gorfodi gennym i'n rheoleiddwyr i wneud iawn yn dilyn achosion eraill a oedd yn gysylltiedig â'n hasedau. Ers mis Mehefin 2017, mae CNC wedi derbyn pum ymrwymiad gennym, gan dderbyn ein cynigion i dalu bron £235,000 tuag at brosiectau sydd â'r nod o helpu i adfer yr amgylchedd naturiol.

Er gwaethaf ein hymdrechion i ddarparu daear newydd artiffisial i foch daear cyn cynnal prosiect cyfalaf ar un o'n safleoedd (gan gydymffurfio â thrwydded gan CNC), roedd yn ergyd fawr clywed bod y moch daear wedi cael eu baetio, sy'n weithgaredd anghyfreithlon ffiaidd. Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o ddiogelu bywyd gwyllt ar ein safleoedd rhag ymosodiadau bwriadol.

Byddwn yn parhau i ddysgu gwersi

Er enghraifft, mewn cydweithrediad agos â'n partneriaid y Gynghair, rydym wedi cyflwyno system o roi gwybod am achosion amgylcheddol 'y bu bron iddynt ddigwydd'. Mae hyn yn annog y staff i gofnodi digwyddiadau lle ataliwyd achosion o ddifrod neu dorri'r gyfraith o drwch blewyn, fel y gallwn chwilio am ffyrdd o wella ein prosesau yn y dyfodol.

Mae angen i ni hefyd sicrhau bod ein contractwyr cynnal a chadw tiroedd yn parchu'r camau gweithredu, megis plannu coed, a gymerir gan staff gweithredol i gefnogi bioamrywiaeth.

Mae'r ffaith y gall mesurau i gefnogi bioamrywiaeth arbed arian yn wers bwysig arall. Er enghraifft, mae rhai o'r hyrwyddwyr bioamrywiaeth yn dad-ddofi rhan o'u safleoedd, lle nad oes unrhyw effeithiau na goblygiadau gweithredol o ran diogelwch y safleoedd. Gall dad-ddofi safleoedd neu dorri glaswellt yn llai aml leihau costau cynnal a chadw.

Beth sy'n digwydd nesaf?

O dan adran 6(8) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n rhaid i ni yn awr adolygu ein cynllun bioamrywiaeth ("Neilltuo amser ar gyfer natur") yng ngoleuni'r adroddiad hwn.

Bydd yr adolygiad yn rhoi cyfle i ni ystyried a yw "Neilltuo amser ar gyfer natur" yn dal i fod yn addas at y diben neu a ddylid ei ddiweddarau. Yn benodol, efallai y byddwn am adnewyddu'r rhestr o 30 o ymrwymiodau a wnaed yn "Neilltuo amser ar gyfer natur" gan fod cyfran sylweddol ohonynt bellach wedi cael eu cwblhau.

Wedi dweud hynny, fel y nodwyd ar adegau amrywiol yn yr adroddiad hwn, bydd llawer yn dibynnu ar benderfyniad Ofwat ar ein terfynau prisiau ar gyfer y pum mlynedd nesaf (2020–2025). Yn arbennig, rydym yn aros am ei benderfyniad ynghylch a ellir darparu ar gyfer nifer o brosiectau penodol yr ydym yn gobeithio eu datblygu sy'n addo creu manteision i fioamrywiaeth o fewn ein terfynau prisiau.

Mae Dŵr Cymru yn awyddus i gydweithio â'n partneriaid er mwyn sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i natur. Yng ngoleuni'r penderfyniad terfynol gan Ofwat ym mis Rhagfyr 2019, byddwn yn ymgynghori ag aelodau o'n Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol er mwyn cael eu barn ar ein Cynllun diwygiedig, yr ydym yn edrych ymlaen at ei gyhoeddi yn 2020.

Atodiad

Mesur ein hymrwymyiadau a chyflwyno adroddiadau arnynt

Ymrwymïadau o “Neilltuo amser ar gyfer natur”

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
1	Byddwn yn ystyried yn benodol ein dyletswydd ynglŷn â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau pan fyddwn yn cynnal ein hadolygiad llawn nesaf o’n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	2019	Cwblhawyd Cyhoeddwyd ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol ar gyfer 2019 ar 11 Ebrill. Mae’r Cynllun yn nodi’r cysylltiadau â chyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth statudol. Gwnaethom ymgynghori â’r Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol a chawsom ei gefnogaeth.
2	Byddwn yn gweithio gyda’n rheoleiddwyr i wella ein dealltwriaeth o’r posibilrwydd y gall ein harferion ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) o’r goblygiadau cost posibl.	Parhaus	Parhaus Rydym yn cefnogi’r ymgyrch “Gwirio, Glanhau, Sychu” ar safleoedd perthnasol. Rydym yn parhau i fod yn aelod rhagweithiol o Grŵp INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Ym mis Tachwedd 2018, gwnaethom gynnal gweithdy rhanddeiliaid i ystyried opsiynau i fynd i’r afael â phroblemau INNS mewn ffordd fwy effeithlon a chynaliadwy. Gwnaethom helpu i ddatblygu prosiect Cymru Gyfan i fynd i’r afael â phroblemau INNS, sef ‘Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru’, ac rydym yn aelod o’i fwrdd prosiectau. Rydym yn cyfrannu at nifer o brosiectau partneriaeth ar raddfa fawr i fynd i’r afael â phroblemau INNS yng Nghymru, gan gynnwys prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd (y dyfarnwyd cyllid iddo’n ddiweddar o Gronfa Life yr UE). Mae ein Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol yn gwbl ymwybodol o’n gwaith ar INNS ac yn ei gefnogi. Mae ein hymgyrch gyfathrebu fewnol ‘INNS y Mis’ wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith y staff. Mae’r modiwl e-ddysgu (gweler ymrwymiad 20) yn cynnwys elfen am INNS sy’n berthnasol i’n hasedau a’n gweithrediadau.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
3	O dan faner 'TarddLe', byddwn yn parhau i ystyried y posibilrwydd o gydweithredu â'r trydydd sector fel y gallwn weithio gyda'n gilydd tuag at agenda gyffredin, megis gostwng lefelau plaladdwyr ac amonia yn yr amgylchedd, er mwyn diogelu ein cyflenwadau dŵr ac er budd bywyd gwyllt.	Parhaus	Parhaus Mae 'TarddLe', sef ein dull o reoli dalgylchoedd, yn parhau i weithio gyda phartnerïaid a rhanddeiliaid (gan gynnwys y Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol) er mwyn cyd-greu rhaglen rheoli tir arloesol helaeth. Mae ein gwaith ar blaeiddiaid gyda'r gymuned amgylcheddol wedi sefydlu'r grŵp 'Partnerïaid Plaeiddiaid' a arweinir gan Dŵr Cymru. Mae'r arweinwyr yn cynnwys undebau ffermio, CNC, Cyswllt Ffermio, y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol, y Fenter Wirfoddol ac eraill. Mae'r grŵp hwn yn parhau i fod yn weithredol ac yn cyngori ein prosiect PestSmart y dyfarnwyd bron £1 filiwn iddo gan Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru. Mae ein cynllun gwaredu plaladdwyr wedi cael dros 400 o gofrestriadau ac rydym wedi ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ar ein dull TarddLe mewn mwy nag 20 o ddigwyddiadau. Rydym yn aelod gweithredol o is-grŵp Llygredd Amaethyddol Rheoli Tir Cymru CNC sy'n cydweithio â phob rhan o'r sector amaethyddol ar fentrau i leihau llygredd amaethyddol ledled Cymru. Rydym wedi cymryd yr awenau wrth weithio gyda llawer o gymunedau er mwyn sefydlu prosiectau i fynd i'r afael â heriau lleol sydd hefyd yn effeithio ar fioamrywiaeth. Mae ein gwaith gyda rheolwyr tir ym Mhentywyn wedi bod yn ganolog i sefydlu grŵp sy'n ystyried ffyrdd arloesol o leihau'r risg o lygredd a gwella'r ffordd y rheolir maetholion. Fel rhan o'n prosiect Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog, rydym wedi chwilio am yr arferion rhyngwladol gorau o ran rheoli dalgylchoedd ac wedi'u cymhwyso i'n partneriaeth â'r gymuned amaethyddol. Mae ein gwaith gyda ffermwyr lleol wedi arwain at greu 'Grŵp Dŵr y Bannau'. Mae'r cyngor hwn a arweinir gan ffermwyr yn datblygu atebion ar lawr gwlad er mwyn gwella cydnherthedd economaidd ar yr un pryd â diogelu ansawdd dŵr craidd a sefydlu grŵp i ystyried cyfleoedd arloesol sy'n cynnig manteision niferus yn y Bannau. Yn ogystal, rydym wedi penodi Rheolwr Prosiect i ddatblygu'r bartneriaeth drwy grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant gan Lywodraeth Cymru.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
4	Rydym yn bwriadu plannu coed mewn ardaloedd addas o fewn rhai o'n dalgylchoedd dŵr yfed er mwyn diogelu tir rhag erydu a thirlithro. Wrth ddewis rhywogaethau i'w plannu, byddwn yn ystyried sut i sicrhau'r budd mwyaf i fioamrywiaeth	2019	Ar y trywydd iawn Rydym wedi cyflwyno nifer o gynlluniau plannu coed yn ein dalgylchoedd dŵr yfed strategol bwysig. Er enghraifft: Ailddylunio Coedwig Tal-y-bont - Gwnaethom gydweithio â CNC i ailddylunio cynlluniau rheoli'r goedwig a fydd yn diogelu ansawdd dŵr crai, yn darparu gwasanaeth ecosystem o safon uchel ac yn ymwreiddio cydnerthedd yn y dalgylch dŵr yfed strategol bwysig hwn. Nodir hyn fel dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sy'n esiampl i eraill. Rydym yn credu mai'r dull cyfannol hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw'r prosiect coedamaeth (rheoli coetiroedd) cyntaf i gael ei ddarparu ar raddfa dalgylch yn y DU. Yn ogystal, creodd fodel Darparu Ecosystemau Cyfan newydd. Bydd yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar Dŵr Cymru i ehangu ein dull o reoli dalgylchoedd ar raddfa tirwedd ac mae'n ystyried modelau posibl ar gyfer "Taliadau am Wasanaethau Ecosystem" ar ôl Brexit. Cantref – Mae ein gwaith partneriaeth gyda CNC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chymdeithas Tir Comin Bannau Brycheiniog yn nalgylch Cantref yn canolbwyntio'n bennaf ar sadio pridd, yn ogystal â darparu llawer o fanteision bioamrywiaeth. Bydd ein rhaglen waith yn parhau tan fis Mawrth 2020 ac yn plannu 10,000 o chwipiau helyg mewn ardaloedd lle mae risg uchel o dirlithriadau. Daw'r chwipiau o goedwig gyfagos Coed Taf lle mae CNC yn eu gwaredu'n rheolaidd fel rhan o raglen rheoli ystadau blynyddol CNC. Hyd yn hyn, plannwyd 6,000 o goed. Wrth i fwy na 60% o'r chwipiau ymwreiddio, darperir y dystiolaeth sydd ei hangen arnom i ddatblygu cynlluniau plannu yn y dyfodol – er enghraifft, plannu coed ar dir comin, cyfraddau ymwreiddio coed ifanc sydd heb eu gwarchod, y potensial ar gyfer diogelu rhag tirlithriadau ac annog mwy o fioamrywiaeth. Enillodd y prosiect hwn ddau gategori yng Ngwobrau Arloesol Blynyddol 2017 y Sefydliad Dŵr ar gyfer Cymru – Prosiect Amgylcheddol y Flwyddyn ac enillydd Arloesi Cyffredinol.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
5	Byddwn yn chwilio am gyfleoedd newydd yn ein Canolfannau i Ymwelwyr i gynnal natur ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn yr amgylchedd naturiol.	2019	Ar y trywydd iawn Mae'r enghreifftiau o gynnydd yn cynnwys: – Cwm Elan – prosiect Elan Links gwerth £3.3m: caiff 26 o brosiectau eu cyflawni rhwng 2018 a 2023 o dan bedair thema: 1. Dathlu treftadaeth – Diogelu ac adfer safleoedd hanesyddol ac archifo hanes a straeon pobl. 2. Mwynhau Elan – Cynyddu mynediad, a chyfleoedd hamdden a dysgu ar gyfer ymwelwyr. 3. Profiad ac addysg – Cynnig cyfleoedd i fwynhau Cwm Elan drwy wirfoddoli, yn ogystal ag addysg a hyfforddiant. 4. Gwella natur a bywyd gwyllt – Adfer a gwella amgylcheddau naturiol. – Llys y Frân – Canolfan Gweithgareddau newydd, canolfan ymwelwyr wedi'i hymestyn a'i hadnewyddu, deunyddiau dehongli a llwybrau fel rhan o waith adnewyddu gwerth £4m a fydd yn agor yn haf 2020. – Llys-faen a Llanisien – gweithio gyda phartneriaid a chydweithwyr i ddatblygu cynlluniau ar gyfer hwb ymwelwyr newydd ar safle ein cronfa ddŵr yng Nghaerdydd. – Llandegfedd – mae aelodau o'r tîm wedi gosod 25 o flychau adar newydd a byddant yn gosod blychau ystlumod yn y dyfodol agos. Cyflwynwyd digwyddiadau cadwraeth i addysgu ymwelwyr am y cynefinoedd naturiol sy'n amgylchynu'r dŵr: Teithiau Cerdded â Hebogiaid a Diwrnod Gweithgareddau Eco yn gwneud gwestai bygiau. – Prosiect Gweilch Llyn Brenig – rydym wedi llwyddo i ddenu pâr o Weilch sy'n bridio. Eleni, mae ail gyw wedi deor. Yn dilyn pleidlais ar Facebook, rhoddwyd yr enw Roli ar ein cyw gwalch, ar ôl y cymeriad yn "Un Nos Ola Leuad" gan Caradog Prichard. Hedfanodd Roli am y tro cyntaf ar 14 Gorffennaf. Sicrhawyd cyllid TAIS fel bod modd ffrydio'n fyw. – Cronfeydd dŵr Lliw – roedd cais am gyllid TAIS ar gyfer gwelliannau i ymwelwyr yn aflwyddiannus. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Gŵyr yn cyllido gwelliannau mynediad er mwyn gwneud y safle yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr codeiriau olwyn. – Mae fframwaith Gwirfoddoli wrthi'n cael ei dreialu ar safleoedd atyniadau i ymwelwyr o 2019 ymlaen.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
6	Byddwn yn cwblhau ein rhaglen fuddsoddi bresennol gwerth £60 miliwn ar gyfer 2015-2020 y cytunwyd arni ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru i wella ein gollyngiadau mewn 13 o weithfeydd trin dŵr gwastraff drwy ostwng lefelau ffosfforws, er enghraifft, er budd yr ecoleg yn y dyfroedd derbyn.	2020	Ar y trywydd iawn Hyd yn hyn rydym wedi gwella ein gollyngiadau o dri gwaith trin dŵr gwastraff drwy leihau lefelau ffosfforws. Rydym yn gweithio i wella wyth safle arall erbyn 2020. O ran y gweithfeydd trin dŵr gwastraff eraill, rydym wedi cytuno ar newidiadau â CNC yng ngoleuni'r ymchwiliadau a gynhaliwyd fel rhan o ymrwymiad 8 isod. Byddwn yn gwneud mwy o waith monitro a modelu er mwyn nodi'r opsiynau gorau i leihau ein heffeithiau ar y dalgylchoedd hyn. Er bod hyn wedi newid cyfanswm nifer y gwelliannau mewn gollyngiadau unigol sydd i'w cwblhau o fewn ein rhaglen pum mlynedd bresennol, bydd y canlyniad cyffredinol yn sicrhau mwy o fanteision cynaliadwy, hirdymor i ecoleg y dyfroedd derbyn.
7	Byddwn yn cwblhau ac yn cyflwyno adroddiad ar ein hymchwil i effeithiolrwydd rhai prosesau trin newydd i leihau ffosfforws yn ein gollyngiadau.	2018	Ar y trywydd iawn Roedd y gwaith optimeiddio yn ymwneud â'n safle gwaredu maetholion biolegol heb ddosio cemegol. Gwnaethom adolygu dwy dechnoleg arloesol ac rydym bellach wedi gosod technoleg wahanol. Rydym wrthi'n gosod safle profi technoleg ar gyfer electrogeulo, a byddwn yn parhau i fonitro ei effeithiolrwydd. Defnyddiwyd y gwaith hwn ar gyfer cynlluniau ffosfforws sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd, a byddwn yn monitro technolegau gwaredu solidau trydyddol er mwyn ategu'r broses o leihau ffosfforws yn ein gollyngiadau. Rydym ar fin cwblhau cynllun peilot heb gemegion sy'n symud i ffwrdd o ddosio fferrig ar y cyd ag academyddion prifysgolion. Gwnaethom ymuno â phrosiect cydweithredol a adolygodd ddewisiadau amgen i'n dull presennol o ddosio â cheulyddion. Roedd hwn yn addawol ac mae wedi rhoi digon o hyder i ni ystyried treialu'r cynnyrch ar raddfa prawf (Rare Earth). Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio ein hacademyddion prifysgolion drwy brosiectau CAMPUS a phrosiectau eraill. Gwnaed gwaith hefyd i optimeiddio technolegau ac asedau presennol er mwyn gwella perfformiad a gwella cydymffurfio â thrwyddedau. Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn datblygu dull newydd o ymdrin â dŵr gwastraff er mwyn lleihau'r ffosfforws yn yr afonydd drwy reoli dalgylchoedd dros gyfnod AMP7 (2020-2025). Gallai'r dull gweithredu hwn arwain at fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol niferus a gwella bioamrywiaeth drwy gynnig atebion integredig i anghenion amgylcheddol.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
8	Byddwn yn cwblhau ein rhaglen bresennol o ymchwiliadau i'n heffaith mewn 76 o gyrff dŵr mewndirol. Os cadarnheir mai ni yw'r prif reswm pam nad yw corff dŵr yn cyrraedd Statws Ecolegol Da byddwn yn cytuno ar raglen o welliannau y dylem eu gwneud yn ystod 2020-2025.	2019	Ar y trywydd iawn Mae ein Tîm Adnoddau Dŵr wedi cwblhau ymchwiliadau mewn 10 o gyrff dŵr a chytunwyd ar y canlyniadau â CNC. Bydd allbynnau'r rhain yn mynd rhagddynt i'w cyflawni rhwng 2020 a 2025. Ar ochr gwastraff dŵr y busnes, rydym wedi cwblhau 62 o ymchwiliadau y mae CNC wedi cytuno arnynt a'u cymeradwyo. Mae pedwar ymchwiliad yn aros i gael eu cymeradwyo gan reoleiddwyr. Gyda chytundeb CNC, rydym wedi ymestyn yr ymchwiliadau ar Afon Clwyd am flwyddyn ychwanegol er mwyn sicrhau bod modd adolygu dalgylch Clwyd yn ei gyfanrwydd. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n rheoleiddwyr er mwyn cwblhau'r ymchwiliad i Nant Wrddymbre. Mae rhai o'r ymchwiliadau wedi arwain at gynlluniau gwella y trefnir iddynt gael eu cwblhau rhwng 2020 a 2025, ond efallai y bydd yn rhaid i eraill aros am raglenni buddsoddi yn y dyfodol.
9	Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i addysgu ein cwsmeriaid ynglŷn â'r difrod y gall camddefnyddio carthffosydd ei achosi, gan gynnwys i fywyd gwyllt morol.	Parhaus	Parhaus Nod ein hymgyrch "Stop Cyn Creu Bloc" yw lleihau blociadau mewn carthffosydd a all achosi llifogydd, yn ogystal ag achosion o lygredd a all niweidio'r amgylchedd. Mae'r ymgyrch wedi bod ar waith ers 2013, felly gwnaethom gwblhau adolygiad mawr yn ddiweddar. Gan weithio gydag arbenigwyr ar newid ymddygiad, rydym wedi datblygu deunyddiau ymgyrchu newydd sy'n defnyddio iaith fwy dylanwadol er mwyn annog cwsmeriaid i newid eu hymddygiad. Maent hefyd yn defnyddio delweddau cryfach sy'n dangos canlyniadau gwirioneddol fflysio weips, gan hefyd fynd i'r afael â'r deunydd brandio camarweiniol ynghylch "weips y gellir eu fflysio". Mae Dŵr Cymru hefyd wedi ymwneud yn helaeth â'r broses o ddatblygu safon newydd i'r diwydiant dŵr yn ymwneud â'r gallu i fflysio ac annog y wasg i barhau i ddangos diddordeb (mynyddoedd o fraster ac ati) yn y niwed y mae camddefnyddio carthffosydd yn ei achosi, megis drwy fflysio weips.
10	Byddwn yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i annog ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â'r holl bwysau sy'n effeithio ar gyrff dŵr penodol, gan gynnwys ein heffeithiau.	Parhaus	Parhaus Byddwn yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru a CNC ar yr agenda hon drwy'r canlynol: — mynychu cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr; — ymdrechion dalgylchoedd ar ochr dŵr glân ac ochr dŵr gwastraff y busnes; — cynnig cynnal profion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy rhwng 2020 a 2025; — ymatebion i bapurau ymgynghori, megis y rhai ar 'Brexit a'n Tir'.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
11	Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat a Cyfoeth Naturiol Cymru i chwilio am ffyrdd o oresgyn rhwystrau rheoleiddiol a all ein hatal rhag mabwysiadu mwy o ddulliau yn seiliedig ar natur o ymdrin â rhai prosesau trin a rheoli dŵr wyneb.	2019	Ar y trywydd iawn Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill; er enghraifft, rydym wedi hyrwyddo'r neges hon drwy'r canlynol: — ein hymatebion i bapurau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar roi systemau draenio cynaliadwy ar waith; rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy; a Brexit a'n tir; — mae ein Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol yn darparu lleoliad arall ar gyfer hysbysu rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill am y mater hwn; — cefnogi ymdrechion CNC i lunio dull ymarferol o wrthbwysu maetholion.
12	Byddwn yn parhau â'n rôl yn y gwaith o addysgu cenedlaethau'r dyfodol am bwysigrwydd yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys ei fflora a'i ffawna.	Parhaus	Parhaus Ymgysylltwyd â 67,300 o ddisgyblion drwy ein Canolfannau Darganfod Amgylcheddol neu'r rhaglen allgymorth i ysgolion ym mlwyddyn academiaidd 2017/18. Mae disgyblion yn parhau i fwynhau gwersi rhyngweithiol yn yr awyr agored a gyflwynir yn ein Canolfannau Darganfod Amgylcheddol gan athrawon proffesiynol ar secondiad. Gall disgyblion archwilio natur a dysgu am bwysigrwydd dŵr mewn amgylchedd diogel ar yr un pryd. Yn ddiweddar, gwnaethom ddathlu cyrraedd 500,000 o ddisgyblion drwy'r rhaglen addysg gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Lesley Griffiths AC, disgyblion a mwy na 30 o athrawon ar secondiad yn y Senedd.
13	Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gynyddu ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwella effeithlonrwydd ynni ein gweithrediadau presennol.	Parhaus	Parhaus Roedd ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd gennym yn gyfrifol am 17% o'r ynni a ddefnyddiwyd gennym yn 2018/2019. Roedd y ffigur hwn yn llai na'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i'r tywydd hynod sych, a effeithiodd ar y defnydd o bŵer a lefelau cynhyrchu ynni dŵr. Rydym yn prynu gweddill ein hynni o Ørsted, sy'n cyflenwi pŵer 100% adnewyddadwy, wedi'i gefnogi gan REGO (Gwarant Tarddiad Ynni Adnewyddadwy), i ni. Roedd uchafbwyntiau y llynedd yn cynnwys comisiynu tyrbîn dŵr newydd ar safle gwaith trin dŵr Bryn Cowlyd a sawl gweithfa ffotofoltäig solar ar do newydd. Y prif fesurau lleihau'r defnydd o ynni fu gosod goleuadau ynni effeithlon, pypiau a chwythwyr ynni effeithlon a gweithredu rheolaethau proses awtomataidd. Yn ystod blwyddyn ariannol 2018/2019, buddsoddodd Dŵr Cymru gyfanswm o £1.9 miliwn mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
14	Byddwn yn ymchwilio i'r effaith y bydd newid yn yr hinsawdd yn debygol o'i chael ar yr amgylchedd ac ecosystemau erbyn 2050 ac amlinellu ein huchelgeisiau o ran ymchwil ar gyfer 2020-25 yn ein cynllun busnes nesaf	2019	Cwblhawyd Mae'r ymchwil gan ymgynghorwyr wedi cael eu cwblhau. Mae deall newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys ei effaith ar fioamrywiaeth, ac ymateb iddo yn un o themâu "Dŵr Cymru 2050", a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Yng ngoleuni "Dŵr Cymru 2050", mae anghenion ymchwil wedi cael eu datblygu'n fapiau o heulwen sy'n cwmpasu dŵr a dŵr gwastraff. Am y tro cyntaf, caiff effaith newid yn yr hinsawdd ei hystyried yn y carthffosydd a ddylunnir gennym drwy ddatblygu Cynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff erbyn mis Rhagfyr 2022.
15	Byddwn yn parhau i ddefnyddio "Cronfa Ddata Camau Gweithredu" Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn nodi a mynd i'r afael â phroblemau yn y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rydym yn berchen arnynt.	Parhaus	Disodlwyd Nid yw cronfa ddata Camau Gweithredu CNC ar-lein mwyach. Rydym yn deall bod y rheoleiddiwr yn gweithio ar gronfa ddata newydd yn ei lle. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda CNC i adolygu a chyflawni camau gweithredu, lle y bo'n berthnasol, a all fod yn ofynnol ar ein tir. Cynhaliwyd y prosiect ymchwil y cyfeiriwyd ato yn ymrwymiad 16 er mwyn sicrhau mai dim ond camau gweithredu angenrheidiol ac wedi'u targedu'n dda y mae'n ofynnol i Dŵr Cymru eu cymryd.
16	Gan weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn dechrau ar ymchwiliadau i gyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rydym yn berchen arnynt ac yn datblygu rhaglen wella i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer ein swyddogaethau.	2019	Ar y trywydd iawn Cafodd prosiect ymchwil ei gomisiynu er mwyn gwella ein dealltwriaeth o SoDdGA ar ein daliadau tir. Cwblhawyd Cyfnod 1, a darparodd adnodd a fydd yn ein galluogi i nodi a blaenoriaethu camau gweithredu i ddiogelu a gwella ein SoDdGA. Yr adnodd yw'r un cyntaf o'i fath sy'n ymgorffori priodoleddau cydnerthedd ecosystemau a nodir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mewn adnodd ar gyfer gwneud penderfyniadau. Rydym yn rhannu'r hyn yr ydym yn ei ddysgu â'n rheoleiddiwr. Mae Cyfnod 2 y prosiect yn parhau. Drwy ddefnyddio'r adnodd blaenoriaethu, bu pedwar o'n SoDdGA yn destun asesiad ecolegol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'u cyflwr a darparu tystiolaeth i gefnogi ein trafodaethau â CNC ar gamau gweithredu y gallem eu cymryd er mwyn gwarchod a gwella'r safleoedd, gan eu helpu i gyrraedd statws 'cyflwr ffafriol'. Disgwylir i'r Cyfnod hwn o'r ymchwil gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2019. Cafodd llinell fuddsoddi yn ymwneud â'n SoDdGA ei chynnwys yn y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol a luniwyd ar y cyd â CNC a'i chynnwys yn ein Cynllun Busnes drafft ar gyfer 2020-2025 a gyflwynwyd i Ofwat. Rydym yn gobeithio y rhoddir rhyddid i ni gymryd rhai o'r camau gweithredu a argymhellir gan ein hymchwil SoDdGA.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
17	Byddwn yn parhau i wahodd ceisiadau gan sefydliadau nid er elw am arian grant ar gyfer prosiectau a fydd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr lle bydd cyrff dŵr nad ydynt yn cyrraedd Statws Ecolegol Da yn cael budd a lle mae cysylltiad sylweddol â gweithrediadau a buddiannau Dŵr Cymru.	2019	Ar y trywydd iawn Gwnaed pedwar dyfarniad ers mis Mawrth 2017, gan gyfrannu cyfanswm o £122,500 tuag at brosiectau gwerth cyfanswm o £321,500. Wrth i'r prosiectau hyn gael eu cwblhau, mae'n glir eu bod yn denu cryn sylw gan y wasg ac maent hefyd yn gwneud gwelliannau gwirioneddol i ecoleg dyfroedd (am bris llai o lawer nag atebion peirianeg confensiynol).
18	Yn amodol ar yswiriant digonol a threfniadau trwyddedu, hoffem ystyried rôl 'Cyfeillion' a grwpiau cymunedol eraill a allai fabwysiadu rhai o'n safleoedd a'n helpu i'w rheoli.	2019	Ar y trywydd iawn Cynnydd da, gan gynnwys: — Fframwaith gwirfoddoli sy'n cael ei dreialu ar safleoedd atyniadau i ymwelwyr o 2019 ymlaen. — Recriwtio Rheolwr Partneriaeth Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Cymru (wedi'i gyllido'n allanol, tymor penodol o ddwy flynedd) er mwyn datblygu seilwaith gwirfoddoli a phartneriaethau ar safleoedd cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien. — Mae'r cynllun peilot yn cynnwys: 'mabwysiadu cymuned' yn Nyffryn y Swistir gan Gyngor Gwledig Llanelli; cefnogi'r broses o greu Grŵp Cyfeillion a gweithio gyda 'gwirfoddolwyr grwpiau partner' yn Llys-faen a Llanisien drwy brosiect Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Cymru; recriwtio ceidwaid gwirfoddol a gweithio gyda gwirfoddolwyr o Gyngor Sir Powys yng Nghwm Elan; a recriwtio hyfforddwyd chwaraeon dŵr gwirfoddol yn Llandegfedd. — Sgyrsiau parhaus â rhanddeiliaid lleol am gyfranogiad y gymuned yng nghronfeydd dŵr Lliw a Llyn Alaw. — Dyfarnu grant i Silver Slashers er mwyn adfer llwybr yn Llyn Alaw.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
19	Byddwn yn parhau i wahodd ceisiadau gan sefydliadau nid er elw am arian tuag at brosiectau a fydd yn helpu i atal, lleihau, dileu neu reoli perygl rhywogaethau estron a lle mae rhyw gysylltiadau â gweithrediadau Dŵr Cymru.	2019	Cwblhawyd Mae Dŵr Cymru wedi rhyddhau cyllid i gefnogi'r sector gwirfoddol i gyflawni prosiectau sy'n mynd i'r afael â phryderon yn ymwneud ag INNS yn ein hardal weithredol. Mae'r prosiectau a gaiff eu cyllido gan y cynllun yn helpu i fanteisio i'r eithaf ar ymdrechion Dŵr Cymru ei hun i fynd i'r afael ag INNS a chyfrannu at yr ymdrechion ehangach i ymdrin â bygythiad INNS i fioamrywiaeth. Mae'r cynllun yn cefnogi'r prosiectau canlynol: — Prosiect INNS Dyfrdwy, a arweinir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru; — Prosiect 'Giving up the Weed', a arweinir gan Sefydliad Gwy ac Wysg; — Cynllun prawf ar reoli Jac y Neidiwr yn fiolegol, a arweinir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru; — Coedwigoedd Celtaidd Cronfa Life yr UE, a arweinir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; — Prosiect INNS Cymru Gyfan, a gaiff ei gyllido'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.
20	Byddwn yn rhoi cyfle i'n holl gydweithwyr ddysgu am rwymedigaethau cadwraeth cyfreithiol Dŵr Cymru.	2018	Cwblhawyd Cyflwynwyd e-ddysgu ar ddyletswyddau cadwraeth ym mhob rhan o'r busnes. Darparwyd hyfforddiant wedi'i deilwra i bartneriaid y Gyng rhair a thimau cyfalaf.
21	Byddwn yn chwilio am gyfleoedd (e.e. drwy ddulliau cyfathrebu a chystadlaethau mewnol) i harneisio brwdfrydedd ein cydweithwyr i helpu natur pan fyddant wrthi'n gwneud eu gwaith pob dydd i ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth.	Parhaus	Parhaus Rydym wedi datblygu nifer o fentrau mewnol, sy'n cynnwys y canlynol: — neges i bob aelod o'r staff oddi wrth y Prif Weithredwr yn eu hannog i "ymateb i her ein dyletswydd bioamrywiaeth gryfach"; — erthyglau ar "INNS y mis" er mwyn helpu cydweithwyr i nodi rhywogaethau estron goresgynnol; — erthyglau untro, megis un ar ein cyfranogiad mewn partneriaeth yn y Mynyddoedd Duon i adfer a diogelu mawndiroedd naturiol; — negeseuon i atgoffa pobl o benwythnos gwyllo adar blynyddol yr RSPB; — canllawiau ar ffyrdd o gefnogi adar, dolydd blodau gwyllt a SoDdGA ar ein safleoedd.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
22	Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'n dyletswyddau bioamrywiaeth ymhlith ein contractwyr drwy ein trefniadau cytundebol a'n proses gaffael a byddwn yn annog ein contractwyr i chwarae eu rhan i helpu i gyflawni ein dyletswydd wrth iddynt weithio ar ein rhan	Parhaus	Parhaus Darparwyd hyfforddiant wedi'i deilwra i bartneriaid y Gynghrair a thimau cyfalaf. Rhoddwyd hysbysiad dylunio i bowb sy'n gweithio yn y Gynghrair Cyfalaf er mwyn sicrhau yr ystyrir materion diogelu bywyd gwyllt a'r amgylchedd fel rhan o'r broses o gyflawni prosiectau cyfalaf. Rhennir ein Cynllun Bioamrywiaeth â chontractwyr fel rhan o'n dogfennaeth dendro safonol. Diweddarwyd Dogfennau Cychwyn Caffael unigol er mwyn cynnwys unrhyw gamau gweithredu penodol ynghylch bioamrywiaeth a chanlyniadau dymunol ar sail benodol i brosiectau.
23	Byddwn yn paratoi canllaw ar adnabod rhywogaethau estron goresgynol i gydweithwyr	2017	Cwblhawyd Cyhoeddwyd fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg yn 2017. Yn ein cylchgrawn mewnol, Dŵr, gwnaethom gynnal ymgych yn amlygu 'INNS y Mis', gyda'r bwriad o roi gwybod i'r staff am Rywogaethau Estron Goresgynol sy'n peri risgiau i'n hasedau a'n gweithrediadau.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
24	Gan ddechrau gyda'n busnes dŵr gwastraff, byddwn yn treialu rôl Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth sydd wedi'u lleoli ym mhob dalgylch. Caiff yr Hyrwyddwyr eu hannog i chwilio am gyfleoedd i gynnal natur a chael cyllidebau bach i'w helpu i gyflawni'r rôl hon	2018	Parhaus Bu menter Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth Dŵr Gwastraff yn llwyddiant mawr. Wrth wneud eu gwaith bob dydd yn y busnes dŵr gwastraff, mae ein Hyrwyddwyr lleol wedi ceisio neilltuo amser ar gyfer natur drwy gyflawni prosiectau amrywiol er mwyn helpu Dŵr Cymru i gyflawni ei ddyletswydd bioamrywiaeth. Gwirfoddolodd 12 o swyddogion i fod yn hyrwyddwyr. Cynhaliwyd sawl gweithdy er mwyn eu galluogi i gyfnewid eu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Daeth siaradwyr gwadd hefyd, o sefydliadau fel Bug Life, yr RSPB a Coed Cadw. Mae'r Hyrwyddwyr wedi chwarae rhan mewn amrywiaeth eang o fentrau. Dyma rai o blith yr enghreifftiau niferus o'u hymdrechion: – Yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Rotherwas yn Henffordd, gosodwyd planwyr â blodau gwyllt, gan ddenu peillwyr. Mae'r safle hwn yn awr wrthi'n dynodi ardal 'nôl i natur' a fydd yn cynnwys gosod bwydwr adar ac yn darparu amgylchedd i fywyd gwyllt a blodau gwyllt. – Tynnwyd sylw at waith yr Hyrwyddwyr yn ystod Diwrnodau Agored Gwaith Cymunedol Dŵr Cymru, pan gaiff safleoedd eu hagor i'r cyhoedd. Er enghraifft, ar Ddiwrnod Agored Dŵr Cymru ym mis Tachwedd 2018, cysylltodd yr Hyrwyddwyr ag ysgol leol, a ymunodd yn y gwaith o blannu bylbiau yng Ngwaith Trin Gwastraff Dŵr Llanberis. – Mae paledi a daflwyd a blychau pacio wedi cael eu troi'n flychau adar, tai pryfed, blychau ystlumod a thai draenogod. Plannwyd gwrychoedd ar safleoedd niferus yng Ngogledd Cymru. – Gyda chymorth yr Hyrwyddwr lleol, anogwyd y tîm yng Ngwaith Trin Gwastraff Dŵr Llangoed i wneud cais am gyllid – a fu'n llwyddiannus – er mwyn gosod cyfarpar newydd i leihau'r risg y bydd hwyaid bach yn boddh ar y safle. Ein nod yw recriwtio hyrwyddwyr ychwanegol i'r busnes dŵr gwastraff gan ein bod yn cydnabod bod angen mwy o gymorth er mwyn helpu'r rhwydwaith hyrwyddwyr presennol i wireddu ei nodau.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
25	Byddwn yn adolygu'r holl syniadau o sylwedd a ddeilliodd o'r gweithdy ar fioamrywiaeth er mwyn asesu pa mor ymarferol ydynt, eu gwerth posibl, a'u blaenoriaeth	2018	Cwblhawyd Mae adolygiad wedi cael ei gwblhau. Ymhlith yr argymhellion o'r gweithdai y gweithredwyd arnynt, mae'r canlynol: — Creu cynllun cyllido mewnol bach er mwyn helpu cydweithwyr a gynigiodd brosiectau i gefnogi natur ar eu safleoedd, megis plannu blodau gwyllt ar gyfer peillwyr; — Cynnal ymgyrch barhaus o straeon newyddion sy'n gysylltiedig â natur yng nghylchlythyr mewnol ein cwmni, "Dŵr", er mwyn codi proffil bioamrywiaeth; — Llunio cyfres o daflenni er mwyn cynnig awgrymiadau ymarferol i gydweithwyr ar gyfer gwneud y gorau o'u safle. O ystyried gwerth llawer o'r syniadau a ddaeth i'r amlwg yn ein gweithdy cwmni cyfan cyntaf, mae'n siŵr y byddwn yn cynnal un arall er mwyn annog syniadau newydd i'w cynnwys yn ein cynllun bioamrywiaeth ar ei newydd wedd.
26	Wrth gaffael ein contractau nesaf ar gyfer cynnal a chadw tiroedd, byddwn yn annog y rhai sy'n cyflwyno tendrau i ystyried manteision bioamrywiaeth	2018	Ar y trywydd iawn Caiff cwmphas y gwaith ei ddiweddarau i gynnwys gwybodaeth am ein cyfrifoldebau bioamrywiaeth ac amcanion lefel uchel. Er mwyn cyflawni'r newid, bydd y contractwr a rheolwyr ein safleoedd y nodi safleoedd a thasgau penodol a fydd yn gwella bioamrywiaeth. Bydd y contractwr yn gyfrifol am gofnodi'r gofynion hyn a rhoi gwybod i ni amdanynt a bydd ein rheolwr contractau yn gyfrifol am sicrhau bod y cyflenwr wedi cyrraedd y targedau y cytunwyd arnynt. Ni luniwyd y targedau eto ond gwneir hynny erbyn dechrau'r contractau yn 2019/20.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
27	Byddwn yn adolygu ein gweithdrefnau (rhai mewnol ac ar y cyd â Phartneriaid y Gynghrair) i ffurfioli'r ffordd y dylid ystyried manteision bioamrywiaeth posibl (gan gynnwys gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd) pan gaiff cynlluniau cyfalaf eu dylunio ac, os yw'n berthnasol, y gwaith parhaus o'u cynnal a'u cadw.	2018	Cwblhawyd Darperir sesiynau hyfforddi rheolaidd i staff partneriaid y Gynghrair ar ein dyletswyddau bioamrywiaeth a mesurau lliniaru ecolegol. Drwy Dîm Atebion Integredig Partneriaeth y Gynghrair, cafodd canllawiau ar faterion ecolegol eu datblygu a'u rhannu. Drwy ei system adrodd, anogir timau prosiect i nodi ymyriadau a mesurau amgylcheddol cadarnhaol er mwyn gwella bioamrywiaeth. Ystyrir dulliau o gofnodi enillion bioamrywiaeth ar y cyd â Phartneriaid y Gynghrair, a ddylai arwain at gyflawni rhaglenni yn fwy effeithiol. Mae rhestr wirio amgylcheddol wedi cael ei chyflwyno a'i gwella'n barhaus. Mae'n galluogi timau cyflawni cyfalaf i nodi risgiau a chyfleoedd amgylcheddol a mynd i'r afael â nhw yn gynnar yn y broses o ddatblygu prosiectau. Caiff y rhestr wirio ei diweddarw drwy gydol y prosiect a gall ddylanwadu ar newid cadarnhaol. Mae cynnwys gweithwyr proffesiynol o feysydd yr amgylchedd a chynaliadwydd yn gynnar yn y cyfnod dylunio ac adeiladu prosiectau wedi ysgogi nifer o brosiectau i roi atebion amgylcheddol cynaliadwy ar waith. Mae proses newydd ar gyfer trosglwyddo prosiectau yn cael ei llunio er mwyn sicrhau y caiff rhwymedigaethau amgylcheddol eu cofnodi a'u derbyn gan dimau gweithredol yn briodol. Bydd rhai o'r rhwymedigaethau hyn yn golygu bod modd gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni gweithgareddau gweithredol parhaus.
28	Byddwn yn datblygu treial bioamrywiaeth ar un neu ddau o'n safleoedd gweithredol er mwyn dangos sut y gellir cynnal natur heb danseilio diben gweithredol safleoedd nac iechyd a diogelwch ein cydweithwyr	2019	Ar y trywydd iawn Cwblhawyd treial bioamrywiaeth ar safle Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd ac mae trefn cynnal a chadw tir ddiwygiedig bellach yn rhan o'r broses arferol o reoli'r safle. Mae treial i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Bioamrywiaeth penodol ar safleoedd saith Gwaith Trin Dŵr Gwastraff wedi cychwyn a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2019. Bwriad y Cynlluniau Rheoli Bioamrywiaeth yw galluogi'r staff gweithredol lleol i ymgorffori camau gwella bioamrywiaeth ymarferol yn eu gwaith o ddydd i ddydd, gan gefnogi'r broses o gyflawni dyletswydd y cwmni o dan adran 6.

Rhif	Ymrwymiad	Erbyn pryd	Sylwadau/Cynnydd
29	Er mwyn llywio ein cynlluniau yn y dyfodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd, byddwn yn dechrau coladu'r wybodaeth ecolegol, megis arolygon, a ddeler gennym eisoes. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn chwilio am dystiolaeth o bresenoldeb y rhywogaethau neu'r cynefinoedd mewn Rhestrau Bioamrywiaeth a gyhoeddir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.	2018	Ar y trywydd iawn Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd wedi cael ei drefnu gydag Aderyn, y rhwydwaith o bedair Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru. Mae hyn yn golygu bod modd i ni gael gafael uniongyrchol a di-oed ar y data ecolegol diweddaraf, gan gefnogi'r broses o nodi risgiau a chyfleoedd ecolegol yn gynnar. Mae prosiect mewnol wedi cychwyn ym mhob rhan o'r cwmni ac yn parhau er mwyn gwella'r ffordd y caiff yr arolwg amgylcheddol a gwybodaeth adroddiadau eu cofnodi a'u rhyddhau yn y busnes. Y gobaith yw y caiff adnodd System Gwybodaeth Ddaearyddol ei ddatblygu sy'n rhoi pwynt mynediad unigol er mwyn i'r busnes weld data amgylcheddol daearyddol berthnasol, gan arbed amser a chostau.
30	Gan weithio gyda'n rheoleiddwyr, byddwn yn ceisio cynnwys bioamrywiaeth ac atebion sy'n seiliedig ar natur yn opsiynau'r cynllun a ystyriwn pan fyddwn yn datblygu ein rhaglen fuddsoddi ar gyfer 2020-2025. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ceisio nodi un neu ddau o gyfleoedd posibl ar gyfer prosiectau a ysgogir gan fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig ag arfer ein swyddogaethau, a byddwn yn adolygu'r achos dros fuddsoddi mewn pryd cyn llunio ein cynllun busnes terfynol ar gyfer 2020-2025.	2018	Cwblhawyd Cafodd llawer o gynigion buddsoddi a fydd o fudd i fioamrywiaeth, megis lleihau maetholion, eu cynnwys yn y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol a luniwyd ar y cyd â CNC yn ein Cynllun Busnes drafft a gyflwynwyd i Ofwat ym mis Medi 2018. Rydym yn ddiolchgar i CNC am weithio gyda ni i nodi pedwar dalgylch (Afan, Teifi, Conwy ac Alyn) lle rydym yn bwriadu treialu dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn gwella'r canlyniadau amgylcheddol cyffredinol, rhwng 2020 a 2025: rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cynyddu'r manteision posibl i natur. Os bydd Ofwat yn caniatáu cyllid, bydd hyn yn debygol o fod yn un o'r mentrau yn ein cynllun bioamrywiaeth nesaf.

Mynegai o Ffotograffau

Clawr

Gwaith i Adfer Cynefinoedd y Mynyddoedd Duon. Cau ffosydd er mwyn dargadw dŵr a sicrhau y bydd y mawndiroedd yn troi'n wlychfeydd unwaith eto.

Tudalen 4

Ardal dreialu blodau gwyllt, mynediad i Waith Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd

Tudalen 5

Cnocellau brith mwyaf yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Trimsaran

Tudalen 7

Cae o degeirianau gwenynog a llygod llo mawr mewn ardal gwella bioamrywiaeth, Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd

Tudalen 7

Canolfan ddarganfod yng nghronfa ddŵr Llyn Brenig

Tudalen 8

Staff Dŵr Cymru a'i bartneriaid y Gynghair Gyfalaf yn gwirfoddoli gyda Phrosiect Adfer Gorgors Waun Figen Felen, prosiect partneriaeth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Tudalen 8

Enghreifftiau o daflenni Gwneud y Gorau o'ch Safle

Tudalen 8

Titw Tomos las yn nythu mewn blwch rheoli electronig: aeth staff lleol ati i sicrhau y byddai'n cael llonydd yn ystod y tymor nythu.

Tudalen 9

Staff yn adeiladu gwesty bygiau ym mhencadlys Dŵr Cymru.



Dŵr Cymru
Welsh Water

dwrcymru.com